




Arweiniad ar ddefnyddio strategaethau gweledol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar



**Lluniau ar 'Keyring'**

**Beth ydy'r keyring?**

- Cyfes o 'reolau' neu'r hyn sy'n ddisgwyliedig mewn ysgol/dosbarth.
- Mae'n cynnwys rheolau llond llaw yn ogystal â rhai eraill sydd yn allweddol er mwyn datblygu sgiliau personol, cymdeithasol a lles e.e. rhannu, ffrindiau a helpu.



**Creu amserlen weledol l'r dosbarth gyfan a lluniau 'rwan' a 'wedyn'**

**Beth ydy'r lluniau**

- a) amserlen weledol (darpariaeth gyffredinol i lawb) a
- b) lluniau rwan a wedyn (ddarpariaeth wedi ei dargedu ac hefyd yn darpariaeth ychwanegol)

**Amserlen weledol**

Mae'r lluniau hyn yn

- helpu plentyn i ddeall, derbyn ac ymdopi hefo beth sy'n mynd ymlaen yn y dosbarth trwy gydol y sesiwn/diwrnod.
- Cael eu defnyddio fel **darpariaeth gyffredinol** i greu un amserlen weledol hir ar gyfer y mwyafrif o blant yn y dosbarth. Fe'i gosodir mewn man amlwg gyda'r lluniau yn mynd o'r chwith i'r dde. Gall y staff ddangos y lluniau a chyfeirio at beth sy'n digwydd trwy bwyntio a dweud. Bydd y mwyafrif o blant yn gallu deall a dilyn hyn.






**Lluniau Ardaloedd maint A4**

**Beth yw lluniau ardaloedd?**

- Lluniau o wahanol weithgareddau ardaloedd cyfnod Sylfaen maint A4.

**Engraffftiau o luniau ardaloedd**



**Lluniau gweithgareddau unigol i unigolion ag ADY**

**Beth yw lluniau gweithgareddau i unigolion?**

- Nid yw pob plentyn yn y dosbarth yn barod dewis un o weithgareddau / profiadau a gynigir yn yr ardaloedd.
- Mae rhai plant felly angen **darpariaeth ychwanegol** a gweithgareddau wedi eu gwahaniaethol a'u teilwra yn unigol ar eu cyfer.
- Rhaid cychwyn hefo rhywbeth mae'r plentyn yn wirioneddol ei hoffi.
- Os yw'n ymddangos bod dealltwriath plentyn yn sylweddol is na'i oed cronolegol mae angen ini ei helpu i ddeall. Er mwyn l'r plentyn ddeall beth sydd yn cael ei gynig iddo boed yn amser bwyd neu amser chwarae, awgrymir dilyn y patrwm canlynol i'w helpu i wneud dewis o 2 beth.

Cam 1)  
Dangos gwrthrych real l'r plentyn i gychwyn e.e. oren go iawn



Cam 2)




### Lluniau 'rŵan' a 'wedyn'

- Gellir defnyddio'r un lluniau hefyd ar gyfer y plant sydd angen **darpariaeth wedi ei dargedu** ar eu cyfer yn ogystal â'r plant sydd angen **darpariaeth ychwanegol**.
- Dyma'r plant sydd yn cael anawsterau deall beth sy'n mynd ymlaen ac mae'n debygol bod yr amserlen weledol llawn yn ormod iddynt ddeall yr un pryd..
- Wrth gyflwyno 'rŵan' a 'wedyn' felly mae angen tynnu dau lun oddi ar yr amserlen llawn i ddangos beth sy'n digwydd 'rŵan' a beth sy'n digwydd 'wedyn'. Mae'r dull yma yn dangos i blant beth sy'n digwydd yn y dosbarth – rŵan a wedyn trwy'r sesiwn.
- Tros amser mae'r plant sydd yn cael darpariaeth wedi ei targedu yn dod i ddeall y drefn a thros amser estynedig yn debygol o allu dilyn yr amserlen llawn.
- Mae'r plant sydd angen darpariaeth ychwanegol ar y llaw arall yn debygol o fod angen dull 'rŵan a wedyn' yn ddyddiol am gyfnod estynedig i sicrhau eu bod yn deall trefn y dosbarth.

Mae'r lluniau hefyd yn -

- ffordd syml o gyflwyno geirfa newydd yn y Gymraeg.
- cefnogi'r iaith sydd yn cael ei ddefnyddio.
- allweddol bwysig i helpu plant ifanc gydag ADY ag anawsterau iaith.
- Helpu gyda deall cysyniadau mathemategol – amser




Pan mae'r plentyn yn deall gwrthrych real, mae angen ystyried os oes angen symud ymlaen I ddangos tegan sydd yn cynrychioli'r gwrthrych e.e oren plastig



### Cam 3)

Pan mae plentyn yn deall gwrthrych, mae angen symud ymlaen I ddefnyddio llun camera o'r gwrthrych real. Dyma engraifftiau.




### Cam 4)


Pan mae'r plentyn yn deall llun camera, gellid defnyddio llun lliwgar neu symbol o'i hoff bethau





Enghraifft 1 – rwan a wedyn



Enghraifft 2- rwan a wedyn




Enghraifft 3 - rwan a wedyn



Isod mae enghreifftiau o luniau camera o hoff bethau y mae rhai plant yn dymuno chwarae â hwy.



Mae hwn yn enghraifft o fwrdd dewis ar gyfer un plentyn ac yn cynnwys pob peth mae'r plentyn yn ei hoffi yn y dosbarth.

			 <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid defnyddio hoff weithgareddau'r plant wrth ddilyn strategaethau Ga I ymuno gyda chdi? er mwyn I ni ymuno yn eu chwarae a'r un pryd hyrwyddo eu rhyngweithio.</li> <li>• Wrth I'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol gael mynediad at eu hoff bethau/ weithgareddau ar ddechrau'r flwyddyn addysgol yna mae'n debygol iawn tros amser I'r plant ddechrau dewis gweithgareddau/ardaloedd y mae oedolyn wedi ei ddewis.</li> </ul>
<p><b><u>Ar gyfer pwy mae'r keyring? Sut mae eu defnyddio?</u></b>  Adnodd i <u>bob oedolyn</u> ei ddefnyddio mewn unrhyw ddosbarth yn y blynyddoedd cynnar.</p>	<p><b><u>Ar gyfer pwy mae'r lluniau? Sut mae eu defnyddio?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adnodd I helpu <u>pob plentyn</u> yn y dosbarthiadau blynyddoedd cynnar. Dyma <b>ddarpariaeth gyffredinol</b></li> <li>• Gyda'r mwyafrif o blant yn y dosbarth mae'n bosib gosod y lluniau mewn rhes (o'r chwith i'r dde) ac edrych a chyfeirio atynt un ar y tro i egluro beth sy'n digwydd.</li> </ul>	<p><b><u>Ar gyfer pwy mae'r lluniau? Sut mae eu defnyddio?</u></b>  Adnodd ar gyfer staff y dosbarth I'w defnyddio i helpu <u>pob plentyn</u> yn y dosbarth blynyddoedd cynnar I ddeall pa ardal/weithgaredd/offer sydd ar gael bob sesiwn.</p> <p><b><u>Darpariaeth Cyffredinol</u></b> – Gwneud seremoni o ddangos lluniau'r</p>	<p><b><u>Ar gyfer pwy mae'r lluniau?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r plant sydd angen <b>darpariaeth ychwanegol</b> yn y dosbarth angen I oedolyn ddefnyddio'r drefn isod wrth gyflwyno gweithgareddau er mwyn iddynt ddeall beth sydd ar gael yn y dosbarth.. <ul style="list-style-type: none"> <li>- gwrthrychau real,</li> <li>- gwrthrychau sydd yn cynrychioli rhai real,</li> </ul> </li> </ul>

- Pan fod plentyn yn cael anawsterau leithyddol a deall iaith yn benodol, awgrymir bod y lluniau sy'n egluro rhediad y sesiwn yn cael eu rhannu i fyny i 2 lun ar y tro er mwyn egluro "Rŵan \_\_\_\_\_ ac wedyn \_\_\_\_\_". Wrth wneud hyn rydym yn targedu'r plant hynny sydd ddim yn barod ar gyfer edrych ar res o luniau. Dyma **ddarpariaeth wedi ei dargedu a dapariaeth ychwanegol** ar gyfer unigolion.
- Yr un lluniau a ddefnyddir ar gyfer amserlen weledol lawn a strategaeth rŵan a wedyn

ardaloedd sydd ar gael bob sesiwn i'r dosbarth cyfan. Hwn yn rhan naturiol o gychwyn pob sesiwn (gosod y lluniau/gwrthrychau mewn bag Sach Sypreis).

- Y plant yn gallu dewis yn annibynnol ac yn gwybod lle mae'r ardal neu brofiad mae wedi ei ddewis. Y plentyn yn gallu symud o un ardal i'r nesaf yn rhwydd, yn gyfrifol ac yn annibynnol ac yn gwybod sawl plentyn sydd yn cael bod ym mhob ardal. Sgiliau chwarae yn sgilgar ac aeddfed.

**Darpariaeth Gyffredinol wedi'i**

**dargedu** - Lleihau y dewis o luniau l'r plentyn gan sicrhau bod ei hoff ardal/gweithjgaredd/profiad yn cael ei gynnig bob amser. Efallai bod angen ystyried adnoddau ychydig yn wahanol a bod yn ymwybodol o'r angen i ehangu profiadau chwarae a dim yr un peth bob tro.. Oedolyn i fodelu chwarae a cyd chwarae. Ga i ymuno â chdi?

**Darpariaeth Ychwanegol** - Angen lluniau mwy unigol o hoff weithgareddau'r plentyn. Mae'n debygol bydd yr offer chwarae yn fwy ifanc eu naws, fwy synhwyrol ayyb Bod yn barod cael bocs o hoff bethau ar gael i annog cyfathrebu. Modelu chwarae a Ga i ymuno â chdi? Gosod y lluniau l'r unigolyn ar gerdyn A4 . Cynnig 1-2 llun i gychwyn. Gallu gwneud dewis yn bwysig

- lluniau camera
- ac yna symbolau.

- Awgrymir rhoi dewis o 2 wrthrych i gychwyn a chynyddu ar y nifer fel mae plentyn yn dysgu dewis.
- Pan mae'r plentyn wedi cyrraedd y cam lle mae'n deall llun, mae'n syniad gwneud lluniau camera maint bach. Awgrymir eu gosod ar gardfwrdd wedi ei lamineiddio gan ddefnyddio felcro fel bod y lluniau yn cael eu cadw'n drefnus hefo'i gilydd. Tros amser bydd y plentyn yn adnabod y lluniau gyd ac yn gallu troi atyn i ddewis beth mae eisiau.
- Bydd angen ychwanegu at y lluniau tros amser a falle bydd rhai angen eu tynnu oddi yno hefyd wrth l'r diddordeb wanio.
- Y pethau hyn sydd yn mynd i ddatblygu sgiliau chwarae'r plentyn ac hefyd yn gychwyn da l'r oedolyn allu dilyn strategaethau Ga i ymuno gyda chdi?
- Awgrymir bod y lluniau hyn yn cael eu rhoi i'r plentyn wneud dewis, pan mae plant eraill y dosbarth yn dewis ardal Cyfnod Sylfaen o ddewis oedolyn.
- Mae'r lluniau bach yn fuddiol i wneud 'rwan' a 'wedyn' ar lefel unigol hefyd pan fod plentyn yn cael trafferth gwneud tasg i unigolyn a dim ond gwneud beth mae ef/hi eisiau. Mae angen taro bargaen a dweud rhywbeth fel 'rwan peintio a wedyn deinosoriaid'.
- Awgrymir bod sawl copi o bob llun yn cael ei gynhyrchu gan fod lluniau yn gallu mynd ar goll.

<p><b><u>Beth yw eu pwrpas?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r lluniau yn ddefnyddiol iawn gyda pob plentyn ifanc er mwyn <ul style="list-style-type: none"> <li>- eu cadw'n ddiogel,</li> <li>- eu lles</li> <li>- eu helpu i ddysgu sgiliau allweddol</li> <li>- deall bod disgwyliadau arnom mewn gwahanol sefyllfaoedd.</li> </ul> </li> </ul>	<p><b><u>Beth yw eu pwrpas?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae prysurdeb a 'chfylymder' dosbarth yn gweithio i nifer o blant ifanc ond yn anffodus mae rhai unigolion ac yn arbennig plant ifanc gydag ADY yn cael trafferth deall trefn ac ymdopi mewn dosbarth sydd yn gallu creu rhwystredigaeth, annifyrrwch, anfodlonrwydd, ofn a hiraeth.</li> <li>• Mae rhoi cyfarwyddiadau heb ddefnyddio gwrthrych neu lun yn annigonol i blant ifanc sydd yn profi anawsterau yn eu datblygiad laith. Canlyniad hyn yw bod rhai plant yn anfodlon ac yn dangos ymddygiad anodd a heriol tra bod unigolion tawel a swil yn fwy tebygol o ddilyn eraill heb wirioneddol ddeall beth sy'n mynd ymlaen.</li> <li>• Yn union fel mae plentyn bach yn mwynhau stori trwy edrych ar luniau, mae'r lluniau ar yr amserlen a 'rwan ac wedyn' yn gallu ei helpu i ddeall beth sy'n mynd ymlaen yn y lleoliad / dosbarth / Ysgol.</li> </ul>	<p><b><u>Beth yw eu pwrpas?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pan mae plentyn ifanc yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen, credir bod angen sicrhau ei fod yn deall <ol style="list-style-type: none"> <li>a) Beth sydd ar gael h.y. pa ardaloedd / gweithgareddau</li> <li>b) Beth sydd ddim ar gael?</li> </ol> </li> <li>• Oni bai bod plentyn yn deall nad yw rhywbeth ar gael, mae'n mynd i geisio chwarae gyda'r gwrthrych hwnnw.</li> <li>• Mae'n bwysig bod adnoddau yn cael eu cadw / storio neu eu gorchuddio fel bod y plentyn yn deall nad ydynt ar gael.</li> <li>• Gellid hefyd gosod llun ddim ar gael ar beth bynnag sydd ddim ar gael i helpu'r plentyn dros amser i ddeall (gweler lluniau oddi ar y wefan ady/blynyddoedd cynnar).</li> </ul>	<p><b><u>Beth yw eu pwrpas?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caniatáu I unigolion sydd angen darpariaeth ychwanegol wneud <ul style="list-style-type: none"> <li>- Dewis a dangos beth mae eisiau.</li> <li>- Dysgu y gwahanaieth rhwng gwrthrychau real a llun</li> <li>- Helpu I ddatblygu sgiliau chwarae cynnar heb roi gorfodaeth I ddilyn gweithgareddau y mae'r oedolyn wedi ei ddewis</li> <li>- Deall beth sydd angen gwneud rwan a wedyn</li> <li>- Helpu'r oedolyn I adnabod beth sy'n bwysig, pethau sy'n gweithio/ ddim yn gweithio I'r plentyn sydd yn wybodaeth allweddol I'w cynnwys mewn CDU.</li> </ul> </li> </ul>
<p><b><u>Pam eu gwisgo o amgylch y gwddf?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fe'u defnyddir o amgylch y gwddf fel eu bod ar gael yn rhwydd i'w defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd o fewn yr Ysgol/lleoliad a thu allan e.e yn y dosbarth, neuadd, allan ar y buarth, ar ymweliad, mewn gwasanaeth ayyb.</li> </ul>	/	/	/
<p><b><u>Oes rhaid defnyddio pob llun?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oes rhaid defnyddio pob llun sydd wedi ei ddarparu.</li> <li>• Dylai gael ei ddefnyddio'r fel sy'n siwtio pob lleoliad.</li> </ul>	<p><b><u>Oes rhaid defnyddio pob llun?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r lluniau wedi eu darparu I ateb anghenion pob lleoliad addsygol.</li> <li>• Cysylltwch gydag aelod o'r tim ABC neu</li> </ul>	<p><b><u>Oes rhaid defnyddio pob llun?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r lluniau wedi eu darparu I ateb anghenion pob lleoliad addsygol</li> </ul>	<p><b><u>Oes rhaid defnyddio pob llun?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Er mwyn dangos ein bod yn cynnig darpariaeth ychwanegol ar lefel unigol I rai plant, awgrymir bod angen tynnu lluniau camera o'r</li> </ul>

[LlinosWatkins@gwynedd.llyw.cymru](mailto:LlinosWatkins@gwynedd.llyw.cymru)  
os ydych yn gallu meddwl am lun arall

- Mae llun camera llawn cystal yn arbennig pan mae angen tynnu lluniau thema benodol.
- Cysylltwch gydag aelod o'r tim ABC neu [LlinosWatkins@gwynedd.llyw.cymru](mailto:LlinosWatkins@gwynedd.llyw.cymru) os ydych yn gallu meddwl am lun arall

pethau y mae'r plentyn yn ei hoffi er mwyn iddo ddysgu

- Gwneud dewis
- Datblygu sgiliau chwarae ar lefel unigol
- Caniatáu I ni ddilyn strategaethau Ga I ymuno gyda chdi? I hyrwyddo ei sgiliau rhyngweithio.

**Beth yw pwrpas y lluniau llai?**

- Mae'n bosib ychwanegu lluniau bach ar gefn y lluniau 'mawr' er mwyn hwyluso'r oedolyn i chwilio am lun penodol yn sydyn.



/

/

/

**Pa luniau sydd wedi profi yn fuddiol?**

- Mae'r holl luniau yn bwysig I helpu plant ifanc I ddeall a derbyn disgwiliadau a rheolau dosbarth.
- Mae llun 'adref' wedi profi ei hun yn un pwysig iawn i blant ifanc sydd efallai yn profi hiraeth ac yn emosiynol iawn wrth adael eu rhieni/gofalwyr. Mae cael gweld y llun yma fel petai yn rhoi sicrwydd iddynt eu bod yn mynd adref.

**Pa luniau sydd wedi profi yn fuddiol?**

- Mae pob un o'r lluniau yn fuddiol er mwyn helpu plant I ddeall a derbyn beth sy'n digwydd yn yr ysgol/dosbarth.

**Pa luniau sydd wedi profi yn fuddiol?**

- Mae unrhyw lun sydd yn dangos I'r plentyn beth sydd ar gael bob dydd yn mynd I fod yn fuddiol.
- Mae rhai plant yn gallu bod yn gwbl annibynol ac edrych a gweld beth sydd ar gael ac yn a symud I'r ardal honno.
- Mae gallu dewis rhywbeth yn anodd i rai plant ifanc a chredir ei bod yn beth da bod staff yn buddsoddi amser

**Pa luniau sydd wedi profi yn fuddiol?**

- Unrhyw lun o weithgaredd/gwrthrych y mae plentyn yn ei hoffi/fwynhau ac sydd yn bwysig iddynt.

<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r llun gafael llaw hefyd yn bwysig ar gyfer atgoffa plant ifanc o'r angen i wneud hyn wrth gerdded hefo Rhiant i/o'r ysgol. (Mae posib gwneud copi i'r rhieni hynny sy'n dymuno.</li> </ul>		<p>hefo'r plentyn yn gofyn "Beth ti isio?"</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae posib annog y plentyn i ddangos beth mae eisiau ar ei lefel ei hun e.e. trwy bwyntio.</li> <li>Os yw'r plentyn yn profi anawsterau defnyddio iaith I ddweud beth mae eisiau, dylai'r oedolyn fodelu iaith ar lefel syml wrth y plentyn e.e. "dwi isio clai".</li> </ul>	
<p><b><u>Pa mor aml sydd angen defnyddio'r lluniau ar y keyring?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn llwyddo I ddysgu'r disgwyliadau hyn, mae angen defnyddio'r lluniau ar y keyring yn ddyddiol i gychwyn fel bod pob plentyn yn dod i ddeall beth sydd angen iddo/iddi ei wneud.</li> <li>Mae'n ffordd dda o gychwyn sesiwn amser cylch/ar y mat er mwyn atgoffa'r plant o beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt yn ystod y sesiwn</li> <li>Tros gyfnod o amser, mae'n bosib lleihau eu defnyddio gyda rhai plant a dim ond atgoffa ar lafar yn unig.</li> <li>Bydd rhai plant bach yn parhau I fod angen y lluniau i'w hatgoffa am gyfnod estynedig.</li> </ul>	<p><b><u>Pa mor aml sydd angen defnyddio'r lluniau?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn profi llwyddiant, mae angen defnyddio'r lluniau I egluro trefn a rhediad y sesiwn yn ddyddiol.</li> <li>Awgrymir bod yr amserlen weledol yn cael ei gosod mewn man cyfleus fel bod posib cyfeirio ati yn rheolaidd. (o'r chwith i'r dde I gefnogi sgiliau darllen)</li> <li>Mae angen defnyddio lluniau o'r amserlen weledol I wneud 'rwan ac wedyn' yn ddyddiol ac yn gyson yn y dosbarth. Credir eu bod angen bod yn rhan naturiol o rediad y dosbarth fel bod y plant sy'n derbyn <b>darpariaeth wedi ei dargedu</b> neu'r rhai sydd angen <b>darpariaeth ychwanegol</b> yn dod I ddeall, derbyn ac ymdopi gyda rhediad y sesiwn.</li> <li>Credir nad yw hyn yn waith ychwanegol. Yn hytrach mae'n ffordd o gefnogi'r hyn sy'n cael ei ddweud.</li> <li>Tros amser mae'r plant ifanc yn mynd i ddeall beth sy'n mynd ymlaen ac yn mynd i fod yn llai dibynnol efallai ac yn fwy hyderus wrth symud o un gweithgaredd i'r llall.</li> <li>Bydd y rhan fwyaf o blant yn deall trefn y sesiwn yn fuan iawn ac fel fydd yn fater o gyfeirio at y lluniau yn</li> </ul>	<p><b><u>Pa mor aml sydd angen defnyddio'r lluniau?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn sicrhau bod plant ifanc yn deall pa ardaloedd / gweithgareddau sydd ar gael, credir bod angen treulio amser yn ddyddiol yn egluro a'r un pryd dangos lluniau'r ardaloedd hynny. Argymhellir eu gosod allan yn yr un lle bob dydd i (Fel y lluniau 'rwan ac wedyn', mae lluniau'r gwahanol ardaloedd yn helpu plant i ddeall, dysgu geiriau newydd ac yn eu helpu i wneud dewis).</li> <li>Ar ddiwedd y sesiwn chwarae/tasgau mae'n arfer dda tynnu'r lluniau i lawr o flaen y plant i ddangos bod y sesiwn chwarae wedi gorffen tan y sesiwn nesaf. Nid yw'n ddrwg o beth dweud "ta ta tren" ayyb fel bod y plant sydd ag anawsterau iaith sylweddol yn deall yn iawn</li> </ul>	<p><b><u>Pa mor aml sydd angen defnyddio'r lluniau?</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn sicrhau bod plant ifanc sydd yn cael <b>darpariaeth ychwanegol</b> yn deall pa weithgareddau sydd ar gael, credir bod angen treulio amser yn ddyddiol yn egluro a'r un pryd dangos lluniau'r hynny.</li> <li>Argymhellir eu gosod allan ar gerdyn wedi ei lamineiddio a chyda felcro i'w dal yn sownd.</li> <li>Ar ddiwedd y sesiwn chwarae/tasgau mae'n arfer dda rhoi'r lluniau yn ol yn eu lle cadw I ddangos bod y sesiwn chwarae wedi gorffen tan y sesiwn nesaf. Nid yw'n ddrwg o beth dweud "ta ta tren" ayyb fel bod y plant yn deall.</li> </ul>




	achlysurol neu pan mae llun newydd yn cael ei ychwanegu i'r amserlen.		
--	---	--	--

- Ar y llaw arall, bydd rhai plant ifanc sydd yn cael trafferth deall angen bod y lluniau yn cael eu defnyddio am gyfnod estynedig.

### Syniadau eraill ar y wefan

#### Lluniau o'r nifer sy'n cael bod mewn ardal yr un pryd

Mae llun o sawl plentyn sydd yn cael bod ym mhob ardal yn ogystal â rhoi rhif yn rhywbeth i'w ystyried. Mae hyn yn helpu plant ifanc i ddeall os oes lle neu ddim lle yno yn ogystal â dysgu gwerth rhifau syml.



## Strategaethau eraill effeithiol

### Modelu

#### Modelu Gweithred

Mae nifer o blant ifanc yn cael trafferth deall a defnyddio iaith i wahanol bwrpas. Oherwydd hyn mae modelu gweithred gan oedolyn yn allweddol i sicrhau eu bod yn deall beth sydd angen ei ddweud. Er enghraifft nid yw dweud 'cadw teganau' yn ddigon i blant ar y cychwyn oni bai bod oedolyn yn modelu a dangos iddynt beth i'w wneud.

#### Modelu Iaith

Pan mae plentyn ifanc yn profi anawsterau iaith mae'n allweddol bwysig cofio bod angen pwylllo, cadw iaith yn syml ac ar lefel y gall y plentyn ei ddeall. Unwaith mae'r plentyn yn deall yr iaith syml, yna mae posib adeiladu ar hynny a rhoi fwy o eirfa at ei gilydd.

Mae defnyddio lluniau i gefnogi yr hyn yr ydym yn ei ddweud yn hynod effeithiol os y gwneir hynny yn ddyddiol..

#### Rhoi rhybudd caredig

- **Mae cyfnod o newid yn gallu bod yn anodd i nifer o blant ifanc ac felly** er mwyn eu paratoi at newid gweithgareddau / 'transitions', mae angen rhoi Rhybudd caredig o unrhyw newid sydd yn mynd i ddigwydd. e.e.dweud "dau funud ar ôl ac wedyn cadw". (Er nad yw plentyn ifanc yn deall y cysyniad o "ddau funud", yn sicr tros amser mae dweud hyn yn ddyddiol yn ddigon iddynt ddeall y bydd newid yn digwydd cyn bo hir). Mae nifer o blant yn gweld newid heb rybudd yn anodd iawn.
  - a) Gellid defnyddio amser ydyd tywod i helpu'r plant i ddeall.
  - b) Ar ôl munud mae angen ail atgoffa o'r hyn sydd am ddigwydd e.e. dangos yr amser ydyd tywod iddynt, neu ddweud "1 munud ar ôl ac wedyn cadw".
  - c) Pan mae'r 2 funud ar ben, mae'n syniad defnyddio rhywbeth clywedol megis cloch, cân neu dambwrin i ddal sylw'r plant ac i derfynu'r gweithgaredd/gweithgareddau.
  - d) Mae angen mynnu sylw pob plentyn a sicrhau bod y plant sydd yn yr ardal tu allan yn dychwelyd yn ôl i'r dosbarth i glywed beth sy'n digwydd.
  - e) Dangos 2 lun sef yn yr achos yma 'cadw' a llun o beth bynnag sy'n digwydd nesaf yn y drefn a dweud rhywbeth fel "Rwân cadw ac wedyn allan i chwarae".

I brofi llwyddiant dylid gwneud hyn yn ddyddiol ac yn arbennig ar ddechrau'r flwyddyn tan fod y plentyn yn deall ac yn derbyn eich trefn dyddiol.

## Lluniau i Rieni – rwan a wedyn



Rheolau sydd angen eu pwysleisio yn y cartref e.e. gafael llaw.



Lluniau rwtin/trefn amser gwely



Lluniau trefn amser bwyd





Lluniau er mwyn paratoi'r plant ar gyfer mynd allan o'r tŷ.



## Lluniau eraill sydd ar gael ar y wefan

- Hunan ofal/personol – lluniau trefn gwisgo côt, mynd i'r toiled, stori 'Mynd i'r toiled', trefn golchi dwylo, trefn amser bwyd yn y neuadd, llun brwsio dannedd



- Lluniau teimladau - Cyfle da i blentyn ddysgu sut mae'n yn teimlo a bod yn agored i drafod ei deimladau ar lefel syml. Y syniad yw bod plentyn yn dysgu enwi teimladau syml ar ffurf brawddeg fel "dwi'n teimlo'n sâl".

- Lluniau - hwiangerddi, berfau, tywydd, tymhorau

- Poster siapau



Cofiwch ymweld â gwefan ADYaCh/ Visit our ALN website: <https://adyach.cymru/Splash.aspx>

neu mae croeso i chi gysylltu gyda Llinos Watkins, Uwch Athrawes Gwasanaeth ABC- [LlinosWatkins@gwynedd.llyw.cymru](mailto:LlinosWatkins@gwynedd.llyw.cymru) i gael sgwrs bellach.